# Cyllid newydd o £1 miliwn ar gyfer gwirfoddolwyr digidol

20/07/2021



Photo: © CITIZAN

Bydd arian newydd y Loteri Genedlaethol yn rhoi hwb i sgiliau digidol yn y sector treftadaeth drwy helpu sefydliadau i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli digidol.

Nododd arolwg ac adroddiad Cronfa Treftadaeth Ddigidol 2020 Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Agweddau Digidol a Sgiliau ar gyfer Treftadaeth (DASH) awydd i ddatblygu sgiliau digidol ar draws y sector, yn ogystal â'r cyfle i sefydliadau elwa o wirfoddolwyr 'o bell'.

Canfu fod y sector yn galw am arloesi digidol i'w helpu i symud i ddyfodol mwy gwydn a chreadigol, a nododd gyfle i greu mathau newydd o wirfoddoli i gefnogi hyn.

> Gall gwirfoddoli digidol helpu i agor drysau i bawb sy'n gysylltiedig, gan gadw mwy ohonom yn gysylltiedig â threftadaeth.
>
> *Josie Fraser, Pennaeth Polisi Digidol Cronfa Dreftadaeth y Loteri*

Mae’r £1m o arian gan y Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd heddiw drwy ein menter [Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth] mewn ymateb i hyn. Gall sefydliadau treftadaeth a phartneriaethau o bob maint ledled y DU wneud cais.



## Beth yw gwirfoddoli digidol?

Bydd yr arian yn helpu sefydliadau i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u defnydd eu hunain o wirfoddolwyr digidol – gan feithrin sgiliau a chapasiti hanfodol.

Gallai enghreifftiau o gyfleoedd gwirfoddoli digidol gynnwys gweithgareddau sy'n gofyn am sgiliau technegol, er enghraifft:

- casglu, lanlwytho neu drefnu data
- dylunio a chynnal a chadw gwefannau
- cyfieithu
- cynnal digwyddiadau ar-lein

- darparu hyfforddiant
- gwella hygyrchedd ar-lein

Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli o bell. Gall y rhain roi hyblygrwydd i wirfoddolwyr gefnogi treftadaeth o unrhyw leoliad ac ar adegau a allai fod yn fwy addas iddynt. Mae'r dull hwn yn cynnig cyfleoedd i'r rhai nad ydynt efallai wedi gallu gwirfoddoli o'r blaen oherwydd cyfyngiadau amser neu deithio.



Photo: © Thames Discovery Programme

# Buddion i bawb

> Bydd sefydliadau'n elwa o amser a chefnogaeth gwirfoddolwyr, a bydd gwirfoddolwyr yn gallu rhannu a datblygu eu sgiliau tra'n cefnogi'r dreftadaeth y maent yn ei charu.
>
> *Josie Fraser, Pennaeth Polisi Digidol Cronfa Dreftadaeth y Loteri*

Mae'n hysbys bod gwirfoddoli yn cynnig ystod enfawr o fanteision i iechyd a llesiant cyfranogwyr, yn ogystal â chynyddu gallu sefydliadol a gwydnwch. Gall gwirfoddoli digidol hefyd gynnig sgiliau a chyfleoedd datblygu ychwanegol i sefydliadau a gwirfoddolwyr.

Dywedodd Josie Fraser, Pennaeth Polisi Digidol Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Gall gwirfoddoli digidol helpu i agor drysau i bawb sy'n gysylltiedig, gan gadw mwy ohonom yn gysylltiedig â threftadaeth. Bydd sefydliadau'n elwa o amser a chefnogaeth gwirfoddolwyr, a bydd gwirfoddolwyr yn gallu rhannu a datblygu eu sgiliau tra'n cefnogi'r dreftadaeth y maent yn ei charu. Mae'n sefyllfa lle mae pawb ar ei hennill ac rydym yn falch iawn o lansio'r gronfa hon, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol."

Bydd creu'r cyfleoedd newydd hyn yn galluogi sefydliadau i ymgorffori modelau gwirfoddoli digidol y gallant eu hailadrodd a'u hailddefnyddio yn y dyfodol. Bydd hefyd yn darparu dulliau ac arferion gwirfoddoli digidol y gellir eu rhannu â sefydliadau ar draws y sector sy'n awyddus i ddilyn yr un dull.



## Rhagor o wybodaeth

Mae gwybodaeth lawn am y cyllid gwirfoddoli digidol bellach ar gael, gan gynnwys manylion am gymhwysedd a sut i wneud cais. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd 16 Awst.

Mae ein Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth wedi'i gynllunio i fagu sgiliau digidol a hyder ar draws sector treftadaeth cyfan y DU. Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein holl gyfleoedd a'n harweiniad digidol drwy:

- ymweld â'r dudalen Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth
- Cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr a dewis y dewis 'digidol'



## rdeb hefyd mewn ...

Butterfly Conservation. Credit: Ben Hanson



## and creativity in heritage sector

Alistair McNaught



## Developing digital leadership in heritage